Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Glanyfferi**
**Glanyfferi SA17 5RN**

**Bwriad symud i adeilad newydd a moderneiddio'r gangen**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ein bod, â chytundeb y Postfeistr, yn bwriadu symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd - Canolfan Gymuned Calon y Fferi, Heol Caerfyrddin, Glanyfferi, SA17 5TE. Mae'n dda gennyf ddweud y bydd y symud, os wnaiff ddigwydd, yn amodol ar ymgynghoriad, yn golygu y bydd yr adeilad yn cael ei adnewyddu i gynnwys Swyddfa Bost, gan newid i fod yn un o'n canghennau lleol ffasiwn-newydd.

Mae'r newid hwn yn rhan o raglen bwysig o foderneiddio ar draws rhwydwaith Swyddfa'r Post, sef y fwyaf yn hanes Swyddfa'r Post Cyf. Bydd y rhaglen sydd yn dibynnu'n helaeth ar fuddsoddiad gan y Llywodraeth, yn moderneiddio 8,000 o ganghennau, a cheir buddsoddiad ychwanegol mewn dros 3,000 o ganghennau cymunedol ac allgymorth.

**Beth fydd hyn yn ei olygu i gwsmeriaid?**

- Cynigir gwasanaethau Swyddfa'r Post o dil ar gownter y siop mewn cangen fodern â chynllun agored
- Oriau agor estynedig
- Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd
- Gwell hygyrchedd.

**Ymgynghori ynglŷn â'r lleoliad newydd arfaethedig**

Rydym nawr yn dechrau ar ymgynghoriad cyhoeddus lleol a fydd yn para am chwe wythnos a hoffem wybod beth yw eich barn am gyfaddasrwydd y lleoliad newydd arfaethedig. Cyn cwblhau ein cynlluniau, hoffem wybod beth yw'ch barn ynglŷn â'r lleoliad arfaethedig, yn enwedig gyda golwg ar y canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliad a'r adeilad newydd a pha mor hawdd yw cyrraedd yno?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn iddo?
- A oes unrhyw faterion yn ymwneud â'r gymuned leol a allai, yn eich barn chi, gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig neu ddylanwadu arno?
- Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?

Rwyf wedi amgáu taflen wybodaeth sydd yn rhoi rhagor o fanylion am y lleoliad newydd a'r dewis o gynhyrchion a fydd ar gael. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, byddwch cystal ag anfon ebost neu ysgrifennu ataf trwy ein tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori, sydd â'i fanylion cyswllt drosodd. Sylwch, os gwelwch yn dda, na fydd eich sylwadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny wrth nodi'n glir arnynt: "Yn Gyfrinachol/In Confidence". Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen newydd.

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig wrth lenwi ein holiadur ar-lein sy'n hawdd a chyfleus, trwy'r ddolen isod. Wrth fynd i mewn i'r safle gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer gangen hon naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen: 359642

postofficeviews.co.uk

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol:**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | 25 Ionawr 2018 |
| Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | 8 Mawrth 2018 |
| Mis arfaethedig y newid | Mai/Mehefin 2018 |

Drosodd, rwyf wedi cynnwys gwybodaeth am y Cod Ymarfer, a bydd copïau o'r Cod ar gael hefyd mewn canghennau.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad rhown wybod i chi am ein cynlluniau terfynol wrth arddangos poster yn y gangen.

Yr eiddoch yn gywir

**Suzanne Richardson**
**Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Bydd eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd. Felly, dylid anfon sylwadau trwy Radbost mewn da bryd i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod o ymgynghori. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

**Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Glanyfferi**

| | Lleoliad y Swyddfa Bost ar hyn o bryd | Lleoliad arfaethedig y gangen Swyddfa'r Post newydd (yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus lleol) |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad** | Glanyfferi<br>SA17 5RN | Canolfan Gymuned Calon y Fferi<br>Heol Caerfyrddin<br>Glanyfferi<br>SA17 5TE |
| **Oriau agor y Swyddfa Bost** | Llun: 08:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Maw: 08:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Mer: 08:00 – 12:00<br>Iau: 08:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Gwen: 08:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Sad: 08:30 – 12:00<br>Sul: Ar gau | Llun: 09:00 – 19:00<br>Maw: 09:00 – 19:00<br>Mer: 09:00 – 19:00<br>Iau: 09:00 – 19:00<br>Gwen: 09:00 – 19:00<br>Sad: 09:00 – 19:00<br>Sul: 09:00 – 18:00 |
| **Pellter** | 400 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. | |
| **Hygyrchedd a Gwaith hygyrchedd** | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae gan y gangen bresennol ris wrth y fynedfa.<br><br>**Parcio**<br>Mae yna barcio ar yr heol yn union y tu allan i'r gangen. Mae yna faes parcio â chilfannau wedi eu marcio o fewn 20 metr i'r gangen. | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae mynediad ar gael trwy ddefnyddio ramp neu risiau o'r palmant. Byddai gan yr adeilad arfaethedig ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, ceid dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.<br><br>**Parcio**<br>Mae yna faes parcio ar ochr dde'r fynedfa i'r adeilad arfaethedig. Byddai cilfannau parcio yn cael eu marcio a cheid dau ar gyfer pobl anabl. |
| **Y Siop** | Cardiau a deunydd cyfathrebu | Siop Goffi/Canolfan Gymuned |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau** | 25 Ionawr 2018 | |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben** | 8 Mawrth 2018 | |
| **Mis y newid arfaethedig** | Mai/Mehefin 2018 | |

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Glanyfferi | | |
|---|---|---|
| **Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | | |
| | **Y gangen bresennol** | **Y gangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ | ✓ |
| Signed For | ✓ | ✓ |
| Special Delivery | ✓ | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ | ✓ |
| Local Collect | ✓ | ✓ |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ | ✓ |
| Archebion Post | ✓ | ✓ |
| Moneygram | ✓ | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ | ✓ |
| **Talu Biliau** | | |
| Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw) | ✓ | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ | ✓ |
| Transcash (heb god bar) | ✓ | ✓ |
| **Gyrru** | | |
| Treth y car | ✓ | ✓ |
| **Teithio** | | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | **Ewros/Doleri** | **Ewros/Doleri** |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | × | ✓ |
| Yswiriant teithio ar gais | ✓ | × |
| | | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ | ✓ |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol | ✓ | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ | ✓ |

Mae'r cynhyrchion sydd wedi'u nodi â × ar gael yn Swyddfa Bost **Cydweli**, 3 Heol yr Orsaf, Cydweli, SA17 4UH

Oriau agor:
Llun – Gwen 08:30 – 17:30
Sad 08:30 – 12:00

**Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post®**

**Beth yw Cod Ymarfer?**
Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys canllawiau y byddwn yn eu dilyn. Maent yn dweud wrthym sut, a phryd, y dylem ddweud wrthych am newidiadau i'ch gwasanaethau Swyddfa'r Post lleol. Rydym wedi gweithio ar y canllawiau hyn gyda’r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr - y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

**Pa fath o newidiadau sy'n cael eu cynnwys?**
Gwybodaeth ynglŷn â phryd rydym yn bwriadu symud neu gau un o’n canghennau neu wasanaethau allgymorth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phan fo cangen wedi cau'n annisgwyl oherwydd llifogydd neu dân, er enghraifft.

**Pwy sy'n cael gwybod gennym am newidiadau?**
Chi a'ch cynrychiolwyr (sydd yn aml yn ASau lleol neu awdurdodau a chynghorau lleol).

**Sut fyddwn yn dweud wrthych am yr hyn sy’n digwydd?**
Os oes newid bach – fel newid yr oriau agor – yna byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy osod posteri yn y Swyddfa Bost. Os ydym yn bwriadu symud Swyddfa Bost, yna byddwn yn gosod posteri ac yn dosbarthu llythyrau yn y gangen yn ogystal ag ysgrifennu at eich cynrychiolwyr. Bydd gennym ddatganiad newyddion a bydd yn hawdd cael hyd i’r wybodaeth berthnasol ar ein gwefan.

**Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?**
Rhoddwn wybod i chi am unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl. Ambell waith, bydd y newid allan o’n dwylo ond ceisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd. Ceisiwn wneud yn siŵr eich bod yn cael gwybod bedair wythnos cyn i unrhyw beth ddigwydd. Os ydym yn bwriadu gwneud newidiadau mawr, bydd yna gyfnod o ymgynghori a fydd yn para am tua chwe wythnos. Mae hyn yn golygu y bydd gennych amser i roi gwybod i ni am eich teimladau.

**Mae’n hawdd rhoi gwybod i ni am yr hyn rydych yn ei feddwl …**
Rydym am glywed eich barn chi a’ch cynrychiolwyr am y newid ac i wneud yn siŵr y bydd yn hawdd i chi roi gwybod i ni, mae ein holl fanylion cyswllt ar ein holl bosteri a llythyrau. Gallwch gysylltu a ni trwy ebost, llythyr neu ffôn.

**Sut fyddwch chi'n cael gwybod am ein cynlluniau terfynol?**
Rhoddwn wybod i chi mewn cynifer o ffyrdd â phosibl. Byddwn yn gosod posteri yn lleol er mwyn rhoi gwybod i chi am yr hyn sy’n digwydd. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol a bydd yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Os rhoddwch wybod i ni am eich barn, fe wnawn yn siŵr eich bod yn gwybod am ein cynlluniau terfynol naill ai wrth ysgrifennu atoch, neu arddangos yr wybodaeth yn gyfleus yn y Swyddfa Bost neu ar ein gwefan.

**Beth allwch chi ei wneud os ydych o’r farn nad ydym wedi glynu wrth y Cod Ymarfer?**
Os ydych o’r farn nad ydym wedi glynu wrth y Cod, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y llythyr hwn ac esbonio pam.

Mae’r Cod Ymarfer llawn ar gael ar ein gwefan yn www.postofficeviews.co.uk